Hawdd ei Ddeall

# Gweithio dros gydraddoldeb yng Nghymru

Y pethau mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud o Ebrill 2016-Mawrth 2017 i gefnogi cydraddoldeb yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2016-2017** Llywodraeth Cymru.

Mawrth 2018

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Gallwch edrych beth mae geiriau mewn glas cyffredin yn ei feddwl. Maen nhw mewn rhestr o **Eiriau anodd** ar dudalen 30.

Pan fydd yr adroddiad yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.

Cafodd yr adroddiad hwn ei wneud yn hawdd ei ddeall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols


ISBN 978-1-78903-723-4

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon........................................................2**

**Ynglŷn â'r adroddiad hwn..........................................................................4**

Deddf Cydraddoldeb (2010)........................................................4

Cynllun Cydraddoldeb 2016-2020..............................................8

**Y pethau wnaethon ni yn 2016-2017..................................................12**

- Amcan Cydraddoldeb 1........................................................12
- Amcan Cydraddoldeb 2........................................................17
- Amcan Cydraddoldeb 3........................................................19
- Amcan Cydraddoldeb 4........................................................20
- Amcan Cydraddoldeb 5........................................................23
- Amcan Cydraddoldeb 6........................................................24
- Amcan Cydraddoldeb 7........................................................25
- Amcan Cydraddoldeb 8........................................................27

**Beth sy'n digwydd nesaf............................................................................29**

**Geiriau Anodd ..........................................................................................30**




# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Bob blwyddyn mae'n rhaid i ni ysgrifennu adroddiad ynglŷn â'n gwaith ar **gydraddoldeb**.

Cydraddoldeb



Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd.



Rydyn ni'n gweithio i wneud Cymru'n lle mwy cyfartal i fyw a gweithio ynddo.

## Deddf Cydraddoldeb (2010)

Mae **Deddf Cydraddoldeb (2010)** yn dweud bod yn rhaid i ni wneud hyn.




Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn ddeddf. Amcan y Ddeddf Cydraddoldeb yw gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd. Mae'n dweud bod gan bawb yr hawl i:



- gael eu trin yn deg
- cael yr un cyfleoedd a phawb arall
- cael neb yn **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl rhag cael pobl yn **gwahaniaethu** yn eu herbyn.



Mae **gwahaniaethu** yn eich erbyn yn meddwl bod rhywun yn eich trin yn wael neu'n annheg am eu bod yn meddwl eich bod chi'n wahanol.

Mae pobl yn medru gwahaniaethu yn erbyn llawer o bobl gan gynnwys:



- dynion a menywod



- pobl anabl




- pobl sydd â **phroblemau iechyd meddwl**. Mae hyn yn meddwl bod arnyn nhw angen cefnogaeth â'u meddyliau a'u teimladau



- pobl o wahanol oedran – pobl ifainc a phobl hŷn.



- pobl sy’n dod o wahanol wledydd neu **ddiwylliannau** – credoau a ffordd o fyw grŵp o bobl



- pobl o wahanol grefyddau. Neu bobl sydd heb grefydd.



- menywod sy’n disgwyl babi neu sy’n bwydo o’r fron




- **menywod lesbiaidd** – menywod sy’n cael eu denu gan fenywod eraill



- **dynion hoyw** – dynion sy’n cael eu denu gan ddynion eraill



- **dynion a menywod deurywiol** – pobl sy’n cael eu denu gan ddynion a merched.



- **pobl drawsrywiol** – pobl sydd wedi'u geni'n un rhyw ond sydd am fyw fel rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn.

Mae pobl yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun am fwy nag un rheswm. Er enghraifft:



- am ei bod yn fenyw ac yn anabl




- oherwydd crefydd a rhywioldeb.


# Cynllun cydraddoldeb 2016-2020



Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod yn rhaid i ni gael cynllun cydraddoldeb. Mae'n rhaid i ni ysgrifennu cynllun cydraddoldeb newydd bob pedair blynedd.




Rydyn ni wedi ysgrifennu ein hail gynllun cydraddoldeb. Mae'n dweud beth y byddwn ni'n ei wneud o Ebrill 2016 i Fawrth 2020.




Mae fersiwn hawdd ei ddeall o'r cynllun ar gael sy'n cael ei alw'n **Cymru Gyfartal: Gwneud Cymru'n lle tecach i fyw a gweithio ynddo, Amcanion Cydraddoldeb Ebrill 2016 i Fawrth 2020**.



Gallwch gael copi yma: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/160802-equality-objectives-2016-20-easy-read-cy.pdf




Mae rhestr ynddo o 8 **amcan cydraddoldeb** wedi'u diweddaru

Yr **amcanion cydraddoldeb** yw'r pethau pwysig i wneud Cymru'n lle tecach i fyw ynddo.

Ein 8 amcan cydraddoldeb yw:



1. Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd wrth galon cynllunio a darparu **gwasanaethau cyhoeddus**.



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn cynnwys iechyd, cartrefu, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant.



2. Gwneud yn siŵr bod digon o gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau **eirioli**.



Mae **eiriolaeth** yn ymwneud â'ch helpu chi trwy gael rhywun arall i siarad ar eich rhan.




3. Edrych pam y mae rhai grwpiau o bobl yn cael:

- llai o gyfleoedd i gael swyddi da
- llai o dâl am yr un math o waith.



4. Rhoi diwedd ar bob camdriniaeth a **throsedd casineb** fel bo Cymru'n lle mwy diogel i fyw ynddo.



Mae'n **drosedd casineb** pan fydd y dioddefwr yn meddwl bod trosedd wedi digwydd iddo oherwydd pwy ydyw.



5. Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn ymuno â **chyrff cyhoeddus** yng Nghymru.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn rhedeg gwasanaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru ond dydyn nhw ddim yn rhan o'r Llywodraeth.



6. Gwneud ein cymunedau yn gryfach trwy wneud yn siŵr:

- bod pawb yn parchu pawb arall
- bod pawb yn cael ei gynnwys ym mhob peth sy'n digwydd.



7. Dod â nifer y bobl sy’n dlawd i lawr. A gwneud bywyd yn well i bobl sydd heb lawer o arian. Yn enwedig:



- pobl anabl



- rhiant yn magu plentyn ar ei ben ei hun

- rhai grwpiau **lleiafrifoedd ethnig**.



Mae **lleiafrif ethnig** yn grŵp o bobl o wahanol gefndir. Neu sydd â gwahanol draddodiadau i bobl eraill yn eu cymuned.



- teuluoedd sydd â phlant anabl.

8. Llywodraeth Cymru fydd y gorau am gyflogi pobl o wahanol grwpiau.

Llywodraeth
Welsh Government

Mae’r adroddiad hwn yn dweud beth wnaethon ni ym mlynyddoedd **Ebrill 2016 i Fawrth 2017** i gwrdd â’n 8 amcan cydraddoldeb.




# Y pethau wnaethon ni yn 2016-2017

Fe ysgrifennon ni gynllun gweithredu i'n helpu i gwrdd â'n hamcanion cydraddoldeb. Mae'n dweud beth y dylen ni wneud rhwng 2016 a 2020.

Rydyn ni ar ddechrau'r cynllun hwn. Felly mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â dim ond ychydig o amser. Pan fydd mwy o amser wedi mynd heibio fe fyddwn ni'n gwybod pa mor dda mae ein gwaith wedi cwrdd â'r amcanion cydraddoldeb.





Ond yma mae rhai enghreifftiau o'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud mewn blwyddyn.



## Amcan Cydraddoldeb 1

**Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd wrth galon cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.**




**Côd Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer Cymru**

Fe wnaethon ni ddiweddaru **Côd Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer Cymru**.



Mae'r ddogfen hon yn dweud wrth staff beth y dylen nhw wneud. A sut y dylen nhw ymddwyn yn y gwaith.



Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ar gyfer cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.



Bydd hyn yn helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Bydd yn help i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y gwasanaethau iechyd meddwl gorau.

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru y gorau y gallan nhw fod.



Yn Ebrill 2016 fe ysgrifennon nhw ffordd newydd o archwilio:

- gofal plant



- gwasanaethau chwarae



- gwasanaethau cymdeithasol.



Mae hyn yn dda ar gyfer plant.



Yn Hydref 2016 fe ysgrifennon nhw ffordd newydd o archwilio:


- cartrefi gofal oedolion



- cartrefi gofal plant.



Mae hyn yn dda ar gyfer plant. Ac ar gyfer pobl hŷn.




**Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol**

Mae'r cynllun hwn yn dweud sut y byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd â phobl eraill.



Mae'n dweud beth sydd angen ei wneud i gynnwys pobl anabl. Cafodd y pethau sydd angen eu gwneud eu dewis gan bobl anabl.





Cafodd ei ysgrifennu yn 2013. Rydyn ni'n ei ddiweddaru. Er mwyn gwneud hyn rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda:



- phobl anabl
- grwpiau sy'n cefnogi pobl anabl
- pobl bwysig eraill.




Bydd y ddogfen newydd yn barod yn 2018.




**Cynllun Gweithredu Strategol Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig**

Mae'r cynllun hwn yn bwriadu gwneud bywyd yn well ar gyfer pobl sydd ag **Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth**.

Mae **Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth** yn anabledd. Mae'n effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd. Mae hefyd yn cael ei alw'n awtistiaeth.



Mae'n cefnogi pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr.


Mae'r cynllun yn ymwneud â:



- helpu pobl i wybod am anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth



- helpu pobl i ddeall anghenion pobl ag awtistiaeth. Ac anghenion eu teuluoedd a'u gofalwyr.




- gwybodaeth a hyfforddiant



- cael eu **diagnosio** yn gynt ac yn haws

Mae **diagnosio** yn meddwl bod tîm o bobl yn ceisio gweld a oes gan berson anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth.



- cael y gofal a'r gefnogaeth iawn.



# Amcan cydraddoldeb 2

**Gwneud yn siŵr bod digon o wasanaethau gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth.**




Yn aml mae pobl yn ei chael hi'n anodd deall beth mae'r gyfraith yn ei ddweud yw eu hawliau ar bethau fel:



- cael eu trin yn deg oherwydd pwy ydyn nhw




- gwaith



- dyled – bod arnoch chi arian i rywun




- budd-daliadau.



Mae ar bobl angen gwybodaeth a chyngor da ynghylch hyn.




Fe ysgrifennon ni gynllun i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael cyngor da am y gyfraith.




Cafodd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol ei gychwyn i ddweud wrthym ni beth sydd angen bod yn y cynllun. Mae hefyd yn helpu gwasanaethau cynghori i weithio gyda'i gilydd.



Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i roi'r cyngor gorau i bobl am arian. A dweud beth yw eu hawliau.




Rydyn ni wedi helpu dros 48 mil o bobl i gael cyngor a gwybodaeth.




Fe helpon ni bobl i wneud cais am dros £12 miliwn mewn budd-daliadau.




# Amcan cydraddoldeb 3

## Edrych pam y mae rhai grwpiau o bobl yn cael:

- **llai o gyfleoedd i gael swyddi da**
- **llai o dâl am yr un math o waith.**



### Prentisiaethau

Mae'n **brentisiaeth** pan fydd person yn dysgu medrau swydd tra yw'n gweithio. Fel arfer mae'n cael llai o dâl am ei fod yn dal i ddysgu.



Rydyn ni am wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfle i gael **prentisiaeth**.



Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r **rhwydwaith darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith**. Rydyn ni wedi rhoi hyfforddiant a gwybodaeth ar gydraddoldeb iddyn nhw a gwybodaeth am gael dysgwyr o wahanol grwpiau i gymryd rhan mewn prentisiaethau.



Rydyn ni wedi casglu 36 o enghreifftiau o bobl o wahanol grwpiau yn cael prentisiaethau.




Fe fyddwn ni'n rhannu'r enghreifftiau hyn gyda'r **rhwydwaith darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith**. Fe fyddwn ni'n eu defnyddio fel enghreifftiau o'r ffyrdd gorau o weithio.



# Amcan Cydraddoldeb 4

**Rhoi diwedd ar gam-drin a throsedd casineb fel bo Cymru'n lle mwy diogel i fyw ynddo.**




Fe ysgrifennon ni gynllun gweithredu. Mae'n dweud sut i gwrdd ag amcanion **Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu**.

Mae hon yn ddogfen sy'n sôn am:



- roi diwedd ar drosedd casineb



- cefnogi dioddefwyr



- sut i wneud y ffordd rydyn ni'n delio â throsedd casineb yn well.

Rydyn ni hefyd yn dal i weithio'n agos â:



- Yr Heddlu
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- Cymorth i Ddioddefwyr
- A grwpiau pwysig eraill.



**Rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod a cham-drin yn y cartref**

Fe ysgrifennon ni ganllawiau i helpu staff i ddilyn y gyfraith ynghylch:



- **Trais yn erbyn Menywod**. Mae hyn yn unrhyw fath o drais sy'n niweidio menywod a merched.



- **Trais yn y Cartref**. Mae hyn yn ymddygiad sy'n achosi niwed i berson. Mae'n cael ei wneud gan bartner neu aelod o'r teulu.



- **Trais Rhywiol**. Mae hon yn weithred rywiol sy'n cael ei gwneud i rywun heb i'r person gytuno.



Bydd y canllaw yn helpu staff i:

- Roi diwedd ar drais yn erbyn menywod. Rhoi diwedd ar drais yn y cartref. A rhoi diwedd ar drais rhywiol.



- Diogelu dioddefwyr.



- Cefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan y math yma o drais.




Rydyn ni hefyd wedi ysgrifennu ein hamcanion ein hunain i roi diwedd ar y math hwn o drais. Ac i ddiogelu a chefnogi pobl. Fe fyddwn ni'n edrych pa mor dda rydyn ni'n cwrdd â'r amcanion hyn.

Taking Flight Theatre

**Cwmni Theatr 'Taking Flight'**

Fe wnaethon ni roi arian i Gwmni Theatr 'Taking Flight' i wneud gwaith yn ymwneud â throsedd casineb yn erbyn yr anabl.



Fe wnaethon nhw greu sioe sy'n cael ei alw'n '**Real Human Being**'. Roedd o am y ffordd roedd disgyblion anabl yn cael eu trin yn yr ysgol. Cafodd y sioe ei gweld gan dros 9,000 o ddisgyblion.

# Amcan Cydraddoldeb 5



**Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn ymuno â chyrff cyhoeddus yng Nghymru.**




**Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth**

Roedd hon yn rhaglen dwy flynedd. Daeth i ben yn 2017.



Fe helpodd bobl o wahanol gefndiroedd gymryd rhan mewn llywodraeth leol. Roedd yn eu hannog i fod yn ymgeiswyr yn eu hetholiadau lleol.



Roedd gan bob cyngor un person oedd yn sefyll dros grwpiau oedd heb gynrychiolaeth dda.



Roedd cynghorwyr hefyd yn helpu pobl i ddeall beth yw eu rôl. Roedd hyn er mwyn helpu pobl gael hyder i ymgeisio mewn etholiad.




Rydyn ni'n mynd i gael rhywun i ysgrifennu adroddiad am y rhaglen hon. Fe fyddwn ni'n defnyddio'r pethau sydd wedi dod yn glir i ni o'r rhaglen i gynllunio beth i'w wneud nesaf.



# Amcan Cydraddoldeb 6

**Gwneud ein cymunedau'n gryfach trwy wneud yn siŵr:**

- **bod gan bawb barch tuag at bawb arall**
- **bod pawb yn cael ei gynnwys yn y pethau sy'n digwydd.**




Mae gennym ni gynllun ar gyfer gwneud cymunedau'n gryfach.



Mae wyth o bobl yn gweithio ar draws Cymru i gefnogi cynghorau lleol i gwrdd ag amcanion y cynllun.



## Amcan Cydraddoldeb 7

**Dod â nifer y bobl sy'n dlawd i lawr. A gwneud bywyd yn well i bobl sydd heb lawer o arian.**

**Nyth**

Mae gennym ni brosiect sy'n cael ei alw'n **Nyth** sy'n rhoi cefnogaeth i bobl sydd ddim yn gallu fforddio gwresogi eu cartrefi.



Mae'n rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl ynglŷn â'r ffordd i wneud eu bil gwres yn llai.



Mae'n helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae'n gallu rhoi boeleri am ddim. A gwella cartrefi i'w gwneud nhw'n gynhesach.



**Plant Iach Cymru**

Fe ddechreuon ni **Raglen Plant Iach Cymru** ym mis Medi 2016.



Mae'n dweud pa gefnogaeth y dylai plant a theuluoedd ei gael o'r adeg y maen nhw'n cael eu geni nes y byddan nhw yn yr ysgol.



Bydd y gefnogaeth hon yn helpu rhieni i gadw eu plant yn iach. A gwneud yn siŵr bod plant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw mor fuan ag sy'n bosibl.




**Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)**

Mae'r ddeddf newydd hon yn bwriadu gwneud addysg a chefnogaeth yn well ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.




Cafodd ei chyflwyno ym mis Rhagfyr 2016. Ac mae'n cynnwys plant a phobl ifainc 0-25 oed.



Bydd yn helpu pawb sydd ag angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu. Bydd yn:


- rhoi plant a phobl ifainc yn ganolbwynt i'w cefnogaeth



- gwneud yn siŵr eu bod yn cael y mwyaf y gallan nhw o addysg ar bob lefel



- gwneud yn siŵr bod pob gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd.




# Amcan Cydraddoldeb 8

**Llywodraeth Cymru fydd y gorau am gyflogi pobl o wahanol grwpiau.**



**Grŵp Llywio Amrywioldeb a Chynhwysiant**

Mae ein **grŵp Llywio Amrywioldeb a Chynhwysiant** yn grŵp o bobl sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru.



Maen nhw wedi gweithio gyda'i gilydd i ysgrifennu cynllun gweithredu tair blynedd. Mae'r cynllun gweithredu yn dweud beth sydd arnon ni angen ei wneud i gwrdd â'r amcan cydraddoldeb hwn.



**Rhwydweithiau Amrywioldeb Staff**

Mae **Rhwydweithiau Amrywioldeb Staff** yn grwpiau o bobl o'r un cefndir neu grŵp.



Maen nhw'n cyfarfod â'i gilydd i roi cefnogaeth i'w gilydd. Ac i rannu problemau a siarad am syniadau.



Maen nhw'n rhoi cyngor i ni i'n helpu i ysgrifennu polisïau ar gyfer ein staff. Mae gennym ni bedwar Rhwydwaith Amrywioldeb Staff. Y pedwar rhwydwaith yw:



- **Ymwybyddiaeth o Anabledd a Chefnogaeth**



- **Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig**



- **'Women's Network (Women Together)'**




- **Rhwydwaith staff cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw (PRISM).**

# Beth sy'n digwydd nesaf



Fe fyddwn ni'n dal i edrych ar y gwaith rydyn ni'n wneud. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ei fod yn ein helpu i gwrdd â'r amcanion cydraddoldeb.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu rhestr o bethau fydd yn dangos a yw Cymru'n gyfartal. Fe fyddwn ni'n defnyddio'r rhestr hon i fesur pa mor dda rydyn ni'n gwneud.



Fe fyddwn ni'n dal ati i roi arian i fudiadau er mwyn iddyn nhw ddal i weithio ar gydraddoldeb. Maen nhw'n cefnogi pobl o wahanol grwpiau sydd mewn perygl o gael eu trin yn annheg. Y mudiadau yw:

- **'The Ethnic Youth Support Team'**
- **Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru**
- **Stonewall Cymru**
- **Anabledd Cymru**
- **Cyngor Ffoaduriaid Cymru**
- **Tros Gynnal Plant**
- **Cymorth i Ddioddefwyr Cymru.**



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl yng Nghymru. A byddwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn para i'r dyfodol.

# Geiriau Anodd

## Amcanion cydraddoldeb

Mae'r amcanion cydraddoldeb yn bethau pwysig mae arnon ni angen eu gwneud i wneud Cymru'n gyfartal.

## Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Mae Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth yn anabledd. Mae'n effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd. Mae hefyd yn cael ei alw'n awtistiaeth

## Cam-drin yn y cartref

Mae hwn yn ymddygiad sy'n achosi niwed i berson. Mae'n cael ei wneud gan bartner neu aelod o'r teulu.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd i wneud yn dda.

## Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn rhedeg gwasanaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru ond dydyn nhw ddim yn rhan o'r Llywodraeth.

## Deddf Cydraddoldeb

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ddeddf. Amcan y Ddeddf Cydraddoldeb yw gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd. Mae'n dweud bod gan bawb yr hawl i:

- gael eu trin yn deg
- cael yr un cyfleoedd a phawb arall i wneud yn dda
- cael neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

## Deurywiol

Pobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod.

## Diagnosio

Mae diagnosio yn meddwl bod tîm o bobl yn ceisio gweld a oes gan berson anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth.

## Diwylliant

Credoau a ffordd o fyw grŵp o bobl

## Dynion hoyw

Dynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill

### Eiriolaeth
Mae eiriolaeth yn ymwneud â'ch helpu chi trwy gael rhywun arall i siarad ar eich rhan.

### Gwahaniaethu (yn erbyn rhywun)
Mae gwahaniaethu yn eich erbyn yn meddwl bod rhywun yn eich trin yn wael neu'n annheg am eu bod yn meddwl eich bod chi'n wahanol.

### Gwasanaethau cyhoeddus
Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys iechyd, cartrefu, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant.

### Lesbiad
Menyw sy'n cael ei denu gan fenywod eraill

### Lleiafrif ethnig
Mae lleiafrif ethnig yn grŵp o bobl o wahanol gefndir. Neu sydd â gwahanol draddodiadau i bobl eraill yn eu cymuned

### Prentisiaeth
Mae'n brentisiaeth pan fydd person yn dysgu medrau swydd tra yw'n gweithio. Fel arfer mae'n cael llai o dâl am ei fod yn dal i ddysgu.

### Problemau iechyd meddwl
Mae hyn yn meddwl bod ar berson angen cefnogaeth â'i feddyliau a'i deimladau.

### Trais rhywiol
Mae hwn yn weithred rywiol sy'n cael ei wneud i rywun heb i'r person gytuno.

### Trais yn erbyn Menywod
Mae hyn yn unrhyw fath o drais sy'n niweidio menywod a merched.

### Trawsrywiol
Mae'r rhain yn bobl sydd wedi'u geni'n un rhyw ond sydd am fyw fel rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn.

### Trosedd casineb
Mae'n drosedd casineb pan fydd y dioddefwr yn meddwl bod trosedd wedi digwydd iddo oherwydd pwy ydyw.